**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 26 Gorffennaf 2018 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P R Hood-Williams | C L Philpott |
| P M Black | B Hopkins | S Pritchard |
| J E Burtonshaw | D H Hopkins | A Pugh |
| M C Child | O G James | J A Raynor |
| J P Curtice | L James | C Richards |
| N J Davies | Y V Jardine | K M Roberts |
| A M Day | M H Jones | B J Rowlands |
| P Downing | P K Jones | M Sherwood |
| C R Doyle | L R Jones | R V Smith |
| M Durke | J W Jones | A H Stevens |
| V M Evans | E J King | R C Stewart |
| C R Evans | E T Kirchner | D G Sullivan |
| W Evans | M B Lewis | M Sykes |
| E W Fitzgerald | R D Lewis | G J Tanner |
| R Francis-Davies | W G Lewis | W G Thomas |
| F M Gordon | A S Lewis | M Thomas |
| K M Griffiths | C E Lloyd | L J Tyler-Lloyd |
| J A Hale | I E Mann | G D Walker |
| D W Helliwell | P M Matthews | L V Walton |
| T J Hennegan | P N May | |
| C A Holley | H M Morris | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Crouch, S J Gallagher, L S Gibbard, S M Jones, M A Langstone, P Lloyd, D Phillips, P B Smith, L G Thomas a/ac T M White

---

## 27. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd

ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw gysylltiad ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, M C Child, V M Evans, R Francis-Davies, J A Hale, M B Lewis, R D Lewis, C Richards, K M Roberts, B J Rowlands, R V Smith ac A H Stevens gysylltiad personol â Chofnod 36 "Adroddiad Blynyddol y Partneriaethau Hamdden";

2) Datganodd y Cynghorydd R C Stewart gysylltiad personol â Chofnod 37 "Bargen Ddinesig Bae Abertawe";

3) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, J P Curtice, N J Davies, A M Day, C R Doyle, P Downing, M Durke, C R Evans, V M Evans, W Evans, E W Fitzgerald, R Francis-Davies, F M Gordon, K M Griffiths, J A Hale, D W Helliwell, T J Hennegan, C A Holley, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, L James, O G James, Y V Jardine, J W Jones, L R Jones, M H Jones, P K Jones, E J King, E T Kirchner, A S Lewis, M B Lewis, R D Lewis, W G Lewis, C E Lloyd, I E Mann, P M Matthews, P N May, H M Morris, C L Philpott, S Pritchard, A Pugh, J A Raynor, C Richards, K M Roberts, B J Rowlands, M Sherwood, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, D G Sullivan, M Sykes, D W W Thomas, M Thomas, G J Tanner, W G Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker ac L V Walton gysylltiad personol â Chofnod 38 "Adolygiad o Drefniadau Etholiadol ar gyfer Dinas a Sir Abertawe Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru."

## 28. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir**:**

1) Cyfarfod Cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2018.

## 29. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredin diwethaf y cyngor.

## 30. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

**1) Newidiadau/cywiriadau i wŷs y cyngor**

**i) Eitem 13 yr agenda "Adolygiad o Drefniadau Etholiadol ar gyfer Dinas a Sir Abertawe Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru"**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod taflen wedi cael ei dosbarthu gan ddiwygio ychydig fanylion yn yr adroddiad. Roedd y diwygiadau mewn perthynas â'r wardiau etholiadol canlynol - Fairwood, Gogledd Cilâ, De Cilâ, Penclawdd, Penderi, Penllergaer, Townhill ac Uplands.

**ii) Eitem 15 yr Agenda, "Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor"**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol y dylid diwygio'r argymhelliad fel ei fod yn dweud "Cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel a amlinellir yn Atodiad A a B yr adroddiad ar y cyd ag unrhyw newidiadau canlyniadol ychwanegol".

## 31. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Morlyn Llanw Bae Abertawe**

Darparodd Arweinydd y Cyngor ddiweddariad ynghylch y gwaith parhaus i gyflwyno Morlyn Llanw Bae Abertawe.

## 32. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Rhestrir y cwestiynau hynny a oedd yn gofyn am ymateb ysgrifenedig isod:

1) Gofynnodd Nortridge Perrott gwestiynau i Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â Chofnod 37 "Bargen Ddinesig Bae Abertawe".

"Sut mae'r 11 o brosiectau ym Margen Ddinesig Bae Abertawe yn gweithio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?"

Nododd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

## 33. Cyflwyniad Cyhoeddus - Gofalwyr Ifanc yn Abertawe.

Rhoddodd Ifor Glyn (Cyfarwyddwr) ac Alexandra Atkins (Rheolwr Prosiect Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc) gyflwyniad ar waith y Gofalwyr Ifanc yn Abertawe. Dywedon nhw mai sefydliad gwirfoddol arbenigol yw Canolfan Gofalwyr Abertawe ac mae'n darparu cefnogaeth i ofalwyr nad ydynt yn cael eu talu a chyn-ofalwyr yn Ninas a Sir Abertawe.

Mae Canolfan Gofalwyr Abertawe'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth am ddim i wneud bywyd yn haws i'r gofalwr a'r person sy'n derbyn gofal. Maent yn ceisio darparu cyfleoedd i ofalwyr gwrdd â gofalwyr eraill, rhannu profiadau a gweithio gyda'i gilydd i newid pethau er lles pawb.

Diolchodd y Cynghorydd W Evans iddynt am eu cyflwyniad.

## 34. Adolygu'r Polisi ar Drwyddedu Sefydliadau Rhyw.

Cyflwynodd Aelod Cyflwyno'r Cabinet adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o ganlyniadau'r ymgynghoriad ar adolygu'r polisi ar drwyddedu sefydliadau rhyw ac i gytuno ar y Polisi diwygiedig ar Drwyddedu Sefydliadau Rhyw i'w fabwysiadu a'i gyhoeddi.

**Penderfynwyd:**

1) cymeradwyo a mabwysiadu'r polisi diwygiedig ar Drwyddedu Sefydliadau Rhyw, sydd wedi'i atodi fel Atodiad A yr adroddiad;

2) Cadw'r “ardaloedd perthnasol” cyfredol at ddibenion penderfynu ar geisiadau am sefydliadau rhyw a'r “nifer priodol” o sefydliadau rhyw ar gyfer pob ardal.

## 35. Adolygiad o'r Datganiad Polisi ar gyfer Trwyddedu.

Cyflwynodd Aelod Cyflwyno'r Cabinet adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o'r ymateb i'r ymgynghoriad ar adolygiad Datganiad Polisi ar gyfer Trwyddedu'r Cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y diwygiadau arfaethedig i'r polisi;

2) Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig;

3) Mabwysiadu'r polisi diwygiedig fel yr atodir yn Atodiad A yr adroddiad.

## 36. Adroddiad Blynyddol Partneriaethau Hamdden.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn dweud wrth y cyngor am weithdrefnau partneriaeth cyfleusterau allweddol ym mhortffolio'r Gwasanaethau Diwylliannol.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd W G Thomas am ddadansoddiad o'r costau sy'n berthnasol i "Wariant Arall" gwerth £236,286 ar gyfer Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 y cyfeirir ato ar dudalen 113 Gwŷs y cyngor.

Nododd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 37. Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i sefydlu Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r strwythur llywodraethu cysylltiedig fel a amlinellir yn yr adroddiad ac Arweinydd y Cyngor yw aelodaeth yr awdurdod hwn;

2) Cymeradwyo cytundeb drafft y Cyd-bwyllgor a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, i wneud y fath fân ddiwygiadau i'r cytundeb fel y mae eu hangen, a sicrhau bod yr awdurdodau partner a llywodraethau Cymru a'r DU yn cytuno ar y rhain, er mwyn cwblhau'r cytundeb;

3) Cymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r Cynghorwyr J P Curtice, P Downing ac M H Jones yw aelodaeth yr awdurdod hwn;

4) Cymeradwyo'r cynnig i'r cyngor gyfrannu £50 mil y flwyddyn dros 5 mlynedd i dalu ar y cyd am gostau gweithredu'r Cyd-bwyllgor, Bwrdd y Strategaeth Economaidd, Bwrdd y Rhaglen a'r Cyd-bwyllgor Craffu, a swyddogaethau'r Corff Atebol a'r Swyddfa Ranbarthol, a chytuno ar yr egwyddor y caiff mwy o gyllid ei ddarparu sydd gyfwerth â'r 1.5% o'r cyllid a neilltuir yn benodol ar gyfer y Fargen Ddinesig. Dirprwyo'r cytundeb ar sail darparu'r cyllid hwn i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau (Swyddog Adran 151) mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor.

5) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau (Swyddog Adran 151) i archwilio'r benthyciad cymesur mwyaf priodol a'i roi ar waith i ariannu prosiectau rhanbarthol a gyflwynir yn ardaloedd gwahanol y cyngor.

6) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau (Swyddog Adran 151) i gyd-drafod â Chyd-gyfarwyddwyr y sail ddyrannu fwyaf priodol ar gyfer cadw trethi annomestig rhanbarthol o ran yr 11 o brosiectau.

**Sylwer:** gofynnodd y Cynghorydd J W Jones beth oedd cyfran y gost ar gyfer Cyngor Abertawe yn seiliedig ar yr 11 o brosiectau y cyfeirir atynt ar dudalen 128 Gwŷs y Cyngor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd ef yn dosbarthu'r sleidiau sy'n cynnwys yr wybodaeth eto.

## 38. Adolygiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o Drefniadau Etholiadol Dinas a Sir Abertawe.

Cyflwynodd y Swyddog Canlyniadau a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ddarparu arsylwadau cychwynnol yr awdurdod ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn perthynas â'r adolygiad o drefniadau etholiadol Dinas a Sir Abertawe.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod yr adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan Weithgor y Cyfansoddiad ar 11 Gorffennaf 2018. Cynghorodd y grŵp hwnnw y dylai'r cyngor gymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno fel rhan o'r cyfnod ymgynghori.

Dosbarthwyd taflen ddiwygio hefyd er mwyn diwygio rhai o'r elfennau yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r arsylwadau cychwynnol fel a amlinellir ym Mharagraff 6 yr adroddiad (fel y'u diwygiwyd) a'u hanfon i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

## 39. Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Syr Karl Jenkins

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o gyflwyno Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Syr Karl Jenkins CBE B.Mus FRAM LRAM.

**Penderfynwyd:**

1) Cyflwyno Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Syr Karl Jenkins CBE B.Mus FRAM LRAM;

2) Cynnal Cyfarfod Seremonïol y Cyngor ar 4 Hydref 2018 i gyflwyno'r teitl Rhyddid er Anrhydedd.

## 40. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynwyd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio gwneud diwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

Roedd y newidiadau arfaethedig yn ymwneud â'r meysydd canlynol o Gyfansoddiad y Cyngor:

a) Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefnau'r Cabinet - Gweithdrefn Herio.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r newidiadau i gyfansoddiad y cyngor fel y'u hamlinellir yn Atodiad A a B yr adroddiad ar y cyd ag unrhyw newidiadau canlyniadol ychwanegol.

## 41. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) Rhan A ‘Cwestiynau Atodol’

Cyflwynwyd chwe (6) 'Chwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar gyfer y cwestiynau atodol.

2) **‘Cwestiynau Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'**

Cyflwynwyd wyth (8) 'Cwestiwn Rhan B nad oedd angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.20 pm

**Cadeirydd**